OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 600 (Cy.62)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Mawrth 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 75 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**),yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2008. Deuant i rym ar 1 Ebrill 2008 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio rheoliad 3 (ffioedd arolygu)

**2.** Diwygir Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006(**3**) yn unol â rheoliad 3.

**3.** Yn rheoliad 3, ym mharagraffau (1) ac (8), yn lle "£21.00" rhodder "£25.00".

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru.

5 Mawrth 2008

(**1**) 1991 p.22.

(**2**) Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 75 a 104(1) eu trosglwyddo, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1. Amnewidiwyd adran 75 yn rhagolygol gan adran 58(2) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18). Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau 75 a 104(1) dywededig eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2006/1532 (Cy.150). Cafodd y Rheoliadau hyn eu diwygio gan Reoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2007(OS 2007/1713).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006 er mwyn codi'r ffi sy'n daladwy gan ymgymerwyr am arolygiadau o'u gwaith gan awdurdodau stryd yng Nghymru o dan reoliad 3 o'r Rheoliadau hynny.

Y ffi a ragnodwyd yn wreiddiol yn Rheoliadau 2006 oedd £21. Newidwyd y ffi ddiwethaf ym Mehefin 2007, i £24 ac yn awr fe'i codir i £25.